Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.


This document is available in Welsh as well as English.

Ebrill – Mehefin 2026–2027

**Diweddariad Chwarterol Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd:**

**Ebrill – Mehefin 2026: Data o'r Ddalfa**


| Cyfanswm yr oedolion wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm y gwrywod | Cyfanswm y benywod | Cyfanswm yn anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| 1,872 | 94 | 1,966 | 1,588 | 373 | 5 |



Ebrill – Mehefin 2026–2027

**Data ymweliadau annibynnol â dalfeydd: Ebrill – Mehefin 2026–2027**

| Nifer yr ymweliadau annibynnol â dalfeydd | Cyfanswm yr unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa adeg ymweliadau annibynnol â'r ddalfa | Cyfanswm yr oedolion wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion ifanc wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm yr unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa ddim ar gael | Nifer yr unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa yr arsylwyd arnynt | Cyfanswm yr unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa yr ymwelwyd â nhw | Cyfanswm y gwrywod wedi eu cadw yn y ddalfa | Cyfanswm y benywod wedi eu cadw yn y ddalfa |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 82 | 272 | 262 | 10 | 72 | 94 | 106 | 237 | 35 |





**Ymwelwyr annibynnol gweithredol â dalfeydd: 16**


- Sir Benfro: 5
- Powys: 4
- Ceredigion: 2
- Sir Gaerfyrddin: 5


*Mae un gwirfoddolwr wedi ymadael, a thri gwirfoddolwr wedi cymryd seibiant dros dro o'r cynllun.*

Ebrill – Mehefin 2026–2027

**Amseroedd ymweliadau:**




Rhestrir isod ddadansoddiad o'r categori penodedig 'Arall':

1. Atal rhag gweld cofnod y ddalfa
2. Lleoliad monitorau sgrin ar ddesg y ddalfa
3. Cynhyrchion glanhau aneffeithiol
4. Dim mainc yn y gell aros
5. Eitemau tynnu sylw
6. Cynhyrchion glanhau wedi eu storio mewn ystafell doiled wydr
7. System racio yn yr ystafell storio
8. Dim trofwrdd yn y ffwrn microdon

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Ebrill – Mehefin 2026–2027

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun:**

### Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol

Mae gan Heddlu Dyfed-Powys bellach nyrs gofal iechyd proffesiynol yn bresennol ym mhob dalfa.

Yn ystod y cyfnod adrodd, dim ond un achos a nodwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd lle nad oedd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol ar y safle yn ystod ymweliad â'r ddalfa. Dywedodd yr heddlu fod y ddalfa wedi ailagor o fewn y 24 awr blaenorol ar ôl bod ar gau dros dro, a'r farn oedd ei bod yn debygol bod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn teithio i'r ddalfa o uned ddalfa gyfagos adeg ymweliad yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.

### Materion o ran staffio

Dros y chwarter diwethaf, mae gofynion staffio wedi effeithio ar nifer o ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Mae'r problemau mwyaf cyffredin yn cynnwys y canlynol:

- Oedi wrth gael mynediad i'r ddalfa gan nad oedd staff ar gael i ateb y seinydd i brif fynedfa'r ddalfa.
- Lle caniatawyd mynediad ar unwaith i'r ddalfa, wynebodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd oedi wrth gael eu hebrwng i ymweld ag unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa oherwydd ymrwymiadau gweithredol.
- Yn ogystal, arweiniodd trefniadau anghyson ar gyfer agor dalfeydd at roi'r gorau i ddau ymweliad gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd a drefnwyd.

Mae'r heddlu wedi rhoi sicrwydd bod y cydnerthedd yn gwella, a'i fod yn rhagweld y bydd cau dalfeydd yn cael ei leihau yn ystod y chwarter nesaf.

### Atgyweiriadau

Yn ystod y cyfnod adrodd, nodwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nifer o broblemau cynnal a chadw ac atgyweirio ar draws dalfeydd. Aethpwyd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r pryderon hyn yn brydlon, ac roeddent wedi eu cywiro erbyn amser yr ymweliadau dilynol. Fodd bynnag, nid oes diweddariad wedi dod gan yr heddlu eto o ran y materion canlynol, neu mae'r problemau yn parhau, sy'n dangos y gallai fod angen gwaith adfer neu fonitro pellach:

- Staff yn argymell ailosod clo yng nghegin y ddalfa er diogelwch unigolion a gedwir yn y ddalfa a staff.
- Gosod mainc dalfa mewn dalfa benodol.
- Lleoliad monitorau sgrin ar ddesg y ddalfa.

Sylwadau cadarnhaol

Y thema gadarnhaol bwysicaf a ddaeth i'r amlwg o ymweliadau'r ymwelwyr annibynnol â dalfeydd y chwarter hwn oedd ymddygiad staff y ddalfa, a sut yr oedd unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa yn cael eu trin. Gwnaeth yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sylwadau cyson ar y proffesiynoldeb, y parch a'r gofal a ddangoswyd gan staff, gydag unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa yn cael eu trin yn briodol, ac ag urddas ar y cyfan.

Dyma rai adroddiadau penodol a nodwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd:

- *"Hoffwn hefyd dynnu sylw at y cyflwyniad da iawn a roddwyd i'r unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa ynghylch ein presenoldeb a'n rôl. Rhoddodd Rhingyll 464 esboniad clir a syml a oedd yn hawdd ei ddeall, a helpodd i osod naws gadarnhaol a chynnal ymgysylltiad effeithiol. Ar y cyfan, roedd hwn yn ymweliad adeiladol iawn".*
- *"Mynegodd y fam a oedd yno fel oedolyn priodol i'w merch, ei gwerthfawrogiad i ni fod y rhingyll wedi caniatáu iddi aros a chynorthwyo ei merch, a oedd ag anghenion cymhleth."*
- *"Mae'r ymwelydd annibynnol â'r ddalfa yn dymuno tynnu sylw at waith tîm eithriadol staff y ddalfa yn erbyn cefndir heb ddata ar-lein. Mae adolygiadau a hawliau yn dal i gael eu cynnal i safon dda. Diolchwyd i'r tîm yn ystod yr ymweliad".*
- *"Dangosodd Swyddog y Ddalfa a Thywys ddealltwriaeth ac empathi tuag at fenyw ifanc wedi ei chadw yn y ddalfa, a oedd yn teimlo'n bryderus ac yn anesmwyth gan mai hwn oedd ei phrofiad cyntaf o fod yn y ddalfa."*
- *"Roedd yn gadarnhaol gweld y rhingyll yn tawelu'r unigolyn wedi ei gadw yn y ddalfa yng nghell 18, a oedd braidd yn ofidus ac yn ddagreuol, gan ddweud nad oedd yn berson drwg, ac y byddai'n gallu gweld ei gyfreithiwr erbyn hanner dydd. Roedd yr unigolyn, a oedd yn*

| |
|---|
| *gallu siarad a deall Saesneg, yn gorwedd ger drws y gell. I ddechrau, ymddangosodd fel pe bai'n ddagreuol ac yn ofidus, ac yn dymuno mynd adref gan ddweud ei fod yn dymuno dychwelyd i'w wlad ei hun. Roedd wedi cael blancedi, a chynigwyd bwyd iddo, ond roedd wedi gwrthod hynny. Roedd y rhingyll yn ei dawelu ac yn egluro y byddai'n gweld ei gyfreithiwr yn ddiweddarach y bore hwnnw, a thawelodd hynny ef rywfaint."* |

Arall

O dan yr eitem a restrir *'Arall'* dyma'r arsylwadau a amlygwyd gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fel problem / pryder i'w uwchgyfeirio:

- **Atal rhag gweld cofnod y ddalfa** – Mynegodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd bryder nad oedd anghenion iechyd meddwl unigolyn yn y ddalfa wedi cael sylw llawn, gan nodi nad oedd asesiad gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn amlwg, ac hefyd diffyg gweinyddu meddyginiaeth. Gofynnodd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd am gael gweld cofnod yr unigolyn a oedd wedi ei gadw yn y ddalfa yn ystod yr ymweliad, ond gwrthodwyd y cais. Yn dilyn ystyriaeth bellach, nodwyd y dysgu cydfuddiannol canlynol i'r ddwy ochr: dylai ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sicrhau eu bod yn cael caniatâd yr unigolyn yn y ddalfa cyn gofyn am fynediad at gofnodion y ddalfa, tra dylai staff y ddalfa gydnabod bod caniatâd i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd weld cofnodion y ddalfa lle rhoddwyd caniatâd priodol.
- **Cynhyrchion glanhau aneffeithiol** – Mae staff glanhau y ddalfa wedi bod yn codi pryderon bod y cynhyrchion glanhau a ddarperir yn aneffeithiol wrth lanhau bioberyglon. Mae'r heddlu wedi cynnal cyfarfodydd dilynol gydag ystadau a darparwr y contract, ac maent yn fodlon bod y disgrifiad ar gyfer y cynhyrchion yn cadarnhau eu bod yn effeithiol wrth leihau'r risg o glefydau heintus. Fodd bynnag, mae'r heddlu wedi nodi bod problem gyda'r cynnyrch glanhau toiledau ar gyfer un ddalfa, sy'n aneffeithiol ar gyfer porslen neu fetel. Mae'r heddlu'n prynu cynhyrchion glanhau a gynghorir gan y gwneuthurwr i sicrhau bod y toiledau hyn yn lân ac yn briodol ar gyfer unigolion yn y ddalfa.
- **Eitemau tynnu sylw** – Codwyd pryder gan aelod o staff y ddalfa ynghylch priodoldeb rhywfaint o'r deunydd darllen a oedd yn cynnwys nofelau llofruddiaeth troseddau go iawn ar gyfer yr unigolion yn y ddalfa. Mae'r heddlu wedi adolygu addasrwydd y deunydd darllen, ac mae'n fodlon ar y darpariaethau sydd ar gael. Mewn dalfeydd eraill, nodwyd bod angen deunydd darllen ychwanegol. Mae'r heddlu yn ddibynnol ar gael rhoddion ar gyfer y ddarpariaeth hon.

- Gwnaeth staff y ddalfa sylwadau wrth yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oedd digon o gyfrifiaduron llechen ar gyfer unigolion a gedwir yn y ddalfa, yn enwedig gan eu bod yn cael eu darparu ar gyfer plant yn wreiddiol. Nodwyd gan y staff pa mor effeithiol y maent wedi bod ar gyfer oedolion yn y ddalfa hefyd. Mae'r heddlu wedi gosod archeb i ddyblu nifer y cyfrifiaduron llechen sydd ar gael yn y dalfeydd ar hyn o bryd; fodd bynnag, bydd hyn yn cymryd amser i'r adran TG sicrhau bod y cyfrifiaduron llechen yn briodol o ran diogelwch ar gyfer unigolion yn y ddalfa.

- **Cynhyrchion glanhau yn cael eu storio mewn ystafell doiled wydr** – Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi nodi ar sawl achlysur bod eitemau glanhau yn cael eu storio yn barhaus mewn ystafell doiled wydr mewn dalfa. Mae'r ystafell hon wedi ei chynllunio i alluogi swyddogion y ddalfa i archwilio unrhyw gynhyrchion a allai fod wedi eu llyncu gan unigolion yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa. Mae'r heddlu wedi nodi nad yw swyddogaeth yr ystafell hon wedi ei pheryglu; fodd bynnag, mae lle cyfyngedig mewn mannau eraill yn y ddalfa i storio'r eitemau glanhau hyn.
- **System racio yn yr ystafell storio** – Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd sy'n cynnal ymweliadau trawsffiniol wedi nodi bod un ddalfa wedi sefydlu system racio yn ddiweddar i drefnu'r ystafell storio, ac wedi awgrymu y gellir mabwysiadu hyn mewn dalfeydd eraill er mwyn hwyluso'r broses o godi eitemau oddi ar y llawr. Nid yw'r heddlu wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf eto.
- **Dim trofwrdd yn y ffwrn microdon** – Nodwyd gan yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd nad oedd trofwrdd yn y ffwrn microdon a oedd yn cael ei ddefnyddio. Esboniodd y staff, pan roddir bwyd yno, fod risgiau nad yw'r bwyd wedi ei goginio'n drylwyr, a bod rhai mannau o'r bwyd yn rhy boeth.

**Y tywydd**

Yn dilyn cyfnod yr haf, wynebwyd tymereddau uchel yn y ddalfa dros gyfnod o ddau ddiwrnod, a arweiniodd at orfod cau tair dalfa dros dro. Gwelodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu gydweithrediad rhagorol rhwng yr heddlu, y darparwr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'r tîm ystadau a fu'n monitro ac yn datrys problemau yn weithredol yn ystod y cyfnod digynsail hwn o dywydd poeth; oll gyda'r nod o sicrhau diogelwch a lles yr unigolion yn y ddalfa a'r staff.

| |
|---|
| Atgoffwyd yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod angen iddynt gymryd gofal ychwanegol yn ystod unrhyw ymweliadau yn ystod y cyfnod hwn, ac y dylai'r ymweliadau ganfod sut yr oedd y ddalfa'n addasu i awyru, hydradu, cynnal lles yr unigolion yn y ddalfa, ac yn ymdrin â phwysau staffio, yn enwedig ar gyfer unigolion agored i niwed yn y ddalfa. |
| **Arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi**<br><br>Cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a'r Gwasanaeth Tân ac Achub arolygiad ar wasanaethau'r ddalfa yn Heddlu Dyfed-Powys. Cynhaliwyd cyfweliadau â rheolwyr cynllun Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ynghylch yr ymweliadau annibynnol â'r ddalfa, gan ystyried a ydyw heddluoedd yn hyrwyddo canlyniadau teg i bob unigolyn a gedwir yn y ddalfa, ac a ydyw'n agored i graffu effeithiol.<br><br>Nid yw manylion y canfyddiadau wedi eu cyhoeddi ar hyn o bryd. |
| **Recriwtio**<br><br>Mae cynllun ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi gweld un aelod yn ymadael dros y chwarter diwethaf; fodd bynnag, rydym hefyd wedi cyflwyno aelod newydd i'r tîm.<br><br>Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu weminar gwirfoddoli ar 2 Mehefin 2026 i hyrwyddo holl gynlluniau gwirfoddoli'r comisiynydd, gan gynnwys gwaith yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.<br><br>Lansiodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ei fideo animeiddio newydd sbon i gynorthwyo'r gwaith o recriwtio ymwelwyr annibynnol â dalfeydd gan reolwyr cynlluniau, a chodi ymwybyddiaeth gyffredinol o rôl ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Mae'r animeiddiad yn fideo tair munud sy'n rhoi trosolwg o'r hyn y mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ei wneud, a sut olwg sydd ar ymweliad gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Fel gyda'r holl fideos animeiddiedig, mae hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ddod o hyd i'r fideo yn Gymraeg yma ac yn Saesneg yma. |

Ebrill – Mehefin 2026–2027

| |
|---|
| **Digwyddiad arbennig gwirfoddolwyr y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd – Wythnos y Gwirfoddolwyr**<br><br>Cynhaliodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ei digwyddiad chwarterol ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ddydd Mercher 3 Mehefin ar Teams.<br><br>Gwelwyd cyflwyniad ar fecanweithiau ataliol cenedlaethol ledled y byd, lansiad eu hanimeiddiad newydd sbon, adroddiad ar effaith ymweliadau annibynnol â dalfeydd i ddathlu'r gwaith y mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn olaf ddiweddariad gan bencadlys y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. |
| **Modiwl digidol newydd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd: Anghenion crefyddol ac iechyd meddwl yn nalfeydd yr heddlu**<br><br>Darparodd y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ddau fodiwl dysgu newydd trwy'r cyfleuster dysgu ar-lein ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd.<br><br>Mae Anghenion Crefyddol yn y Ddalfa yn fodiwl sydd wedi ei gynllunio i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr o ofynion crefyddol amrywiol unigolion yn y ddalfa. Gall dysgwyr archwilio arwyddocâd darparu ar gyfer gwahanol grefyddau, y fframweithiau cyfreithiol sy'n cefnogi hawliau crefyddol, ac arfer gorau.<br><br>Mae Anghenion Iechyd Meddwl yn Nalfa'r Heddlu yn fodiwl sy'n cwmpasu nifer o feysydd sy'n cynnwys cyffredinolrwydd cyflyrau iechyd meddwl, y fframwaith cyfreithiol a chanllawiau, gan gynnwys diweddariadau o ddeddfwriaeth iechyd meddwl ddiweddar sy'n berthnasol i ddalfa'r heddlu, adnoddau gan bobl sy'n arbenigwyr trwy brofiad o iechyd meddwl a dalfa'r heddlu, a chysylltu a dargyfeirio, a'r hyn y dylai ddigwydd cyn rhyddhau. |
| **Adroddiad blynyddol ymwelwyr annibynnol â dalfeydd**<br><br>Mae adroddiad blynyddol yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi ei gyhoeddi. Gallwch gael mynediad at y fersiwn Gymraeg neu'r fersiwn Saesneg yn yr atodiadau uchod, neu gallwch eu cael drwy ein gwefan isod: |

Ebrill – Mehefin 2026–2027

Gwefan: [Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys]

Gwefan: [Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner]

Mae'r mewnwelediadau a gasglwyd drwy ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gynnal tryloywder, atebolrwydd, a datblygiad parhaus gwasanaethau'r ddalfa. Diolch i bob ymwelydd annibynnol â dalfeydd am eich cyfraniad a'ch ymrwymiad gwerthfawr drwy gydol y flwyddyn.

**Ymateb yr heddlu:**

Mewn perthynas â'r sylwadau uchod, dyma fyfyrdodau Prif Arolygydd Gwasanaethau'r Ddalfa, sy'n gwneud sylwadau ar ran Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y chwarter diwethaf:

*"Mae'n gadarnhaol gweld bod yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi llwyddo i ymweld â 105 o unigolion wedi eu cadw yn y ddalfa dros y chwarter diwethaf, gan daflu goleuni da ar y ffordd y mae'r unigolion hyn yn cael eu trin mewn dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn erbyn cefndir â charfan lai o ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ar hyn o bryd. Hoffwn ddiolch i'r tîm am eu hymdrechion i barhau i fynychu a chynnal lefel dda o ymweliadau â'r dalfeydd.*

*Mae'r arsylwadau ynghylch effaith gadarnhaol darpariaeth gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn Aberhonddu wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r staff a'r unigolion a gedwir yn y ddalfa sy'n mynd i'r ddalfa yn Aberhonddu. Mae'r contract meddygol yn dal i fod o fewn cyfnod ymsefydlu o chwe mis, a fydd yn dod i ben ddechrau mis Tachwedd; fodd bynnag, maent yn gyson yn cyrraedd 80% ac uwch o ran darpariaeth. Bydd ganddynt bedwar aelod o staff llawn amser yn eu lle erbyn diwedd mis Medi.*

*Mae staffio yn y ddalfa mewn rhai rhannau o'r heddlu wedi bod yn heriol, ac nid yw hyn wedi mynd heb i brif swyddogion sylwi. Mae Powys wedi mynd trwy broses ddyrchafu ar wahân yn ddiweddar i ddyrchafu rhingylliaid yn uniongyrchol i'r ddalfa, ac mae Sir Gaerfyrddin wrthi'n adolygu ei model gweithredu yn Nafen. Dim gwybodaeth bellach ar hyn o bryd.*

Ebrill – Mehefin 2026–2027

*O ran rhai o’r meysydd ‘eraill’ a nodwyd, mae’n gadarnhaol gweld bod nifer o’r rhain eisoes wedi cael sylw, boed hynny wedi arwain at newid neu gytundeb bod y sefyllfa bresennol yn addas. Yr unig un rwyf am wneud sylwadau amdano yw’r monitorau sgrin yn un o’r unedau. Mae hyn wedi cael sylw o’r blaen yn ystod ymweliad Gwasanaethau’r Ddalfa gyda staff ystadau, iechyd a diogelwch ac arolygydd y ddalfa, a chytunwyd nad oedd pryder fod lleoliad y monitorau yn torri diogelwch data gan y dylai’r unigolion a gedwir yn y ddalfa aros yn y fan a ddynodwyd i siarad â rhingyll y ddalfa a llofnodi dogfennaeth, heb ganiatáu unrhyw olwg ar y sgrin dan sylw.*

*Mae’r sylwadau cadarnhaol am sut y mae staff wedi trin unigolion a gedwir yn y ddalfa, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn ardderchog i’w clywed, a’r hyn y byddem yn ei ddisgwyl gan ein staff. Bydd y cyfrifiaduron llechen i dynnu sylw hefyd yn cael eu hanfon i bob un o’r unedau dros y pythefnos nesaf.*

*Diolch am eich ymweliadau, eich cefnogaeth barhaus, a’ch perthnasoedd gwaith gyda staff y dalfeydd a Gwasanaethau’r Ddalfa.”*